

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 12fed Chwefror, 2018, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 9.05 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Carys E. Williams (Cadeiryddes)
 Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Elin Hughes,
 Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain, Siôn Williams
 Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)
 Ymddiheuriad: Y Cyngorwyr Glyn Roberts, Glenys Williams

88. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod ac hefyd Mr. Siôn Williams a enwebwyd i gynrychioli Ward Sarn Mellteyrn ar y Cyngor. Derbyniodd Mr. Williams y swydd drwy arwyddo'r ffurflen berthnasol o dan Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

89. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

90. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 8fed Ionawr, 2018.

MATERION YN CODI**(1) Eitem 69 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (2) – Archwilio'r Cyfrifon**

Adroddodd y Clarc ei bod wedi bod mewn cysylltiad ag Un Llais Cymru ynglyn a sefydlu'r wefan ac iddi dderbyn enw person sef Cradur Bach oedd wedi cynllunio wefannau i Gynghorau eraill – pwysleisiodd Swyddog o Un Llais Cymru nad oeddynt yn "...argymell y cwmni yma fel y cyfryw, ond mae'n rhoi syniad o'r math mwyaf sylfaenol o wefan y gellir ei chael ..."

'Roedd y Clarc eisoes wedi cysylltu â'r person yma gan wneud ymholiadau a deallwyd ei fod, a dyfynaf o'i e-bost 6ed Chwefror, 2018:

"Fi bydd yn gwneud y gwaith cychwynnol ac yna chi yn rhoi amserau'r cyfarfodydd mewnforio dogfennau'r cyngor i'r wefan. Mae fy ngwaith i'n cynnwys cofrestru enw (domain name) e.e. 'www.botwnog.org.uk' neu 'www.botwinnog.cymru', ac yna yn gosod fy meddalwedd ar gyfer creu a chynnal y wefan (h.y. CMS neu 'Content Managemant System'). Byddaf wedyn yn adeiladu'r wefan, ac yn y cyfnod dechreuol allai osod eich hen gofnodion, ffurflenni blynyddol a.y.y. ar y wefan.

Fy mhris am osod gwefan i gynghorau cymunedol yw £445. Mae hyn yn cynnwys 'web hosting' am y flwyddyn gyntaf, a hyfforddiant i'r cler (neu gynghorwr) i gynnal y wefan. Os oes eisio fwy o hyfforddiant mae hyn ar gael am £75 am sesiwn dwy awr i hyd at 5 o bobl. Bydd rhaid ychwanegu costau teithio os ydych eisio'r hyfforddiant yn lleol.

Dwi'n codi tua £25 y flwyddyn am we-letya ("web hosting") am wefan .org.uk, Mae un .cymru tua chwech punt yn ddrytach. Mae croeso i chi cael hyd i we-letya eich hun, ond wrth wneud o drwy fi, gewch diweddariadau'r meddalwedd yn y pris.

Dwi wedi creu gwefannau ar gyfer naw cyngor cymunedol erbyn hyn: [Pentrefoelas](#), [Bro Garmon](#), [Llanddoged](#), [Eglwysbach](#), [Capel Curig](#), [Bro Cernyw](#), [Betws-yn-Rhos Buan](#) a [Bodfari](#). Mae rhai mwy llwyddiannus na lleill, yn dibynnu ar pa mor frwdfrydig yw'r sawl sy'n gwarchod y wefan. Dwi i'n credu fy mod wedi creu system weddol hawdd i'w ddefnyddio, ond os ydych eisio i fi osod y cofnodion, datganiad cysylltiad aelodau, a.y.y. mae hyn yn costio £150 y flwyddyn yn cynnwys we-letya."

'Roedd y Clarc wedi paratoi drafft o'r wefan a rhannwyd y syniadau allan i'r aelodau.

'Roedd yn aelodau yn hapus gyda'r wybodaeth a **phenderfynwyd**:

- (a) Symund ymlaen i ofyn i Arwel Parry, Cradur Bach, sefydlu wefan ar gyfer y Cyngor am y pris a nodir uchod.
- (b) I gofrestru'r wefan fel www.botwnnog.cymru
- (c) Gofyn i Mr. Glyn Roberts am luniau o'r tair ardal i'w cynnwys ar y wefan.
- (ch) Anfon y ddogfennaeth angenrheidiol drwodd i Mr. Parry i roi ar y wefan.

(2) Eitem 82 – Materion Ffyrdd

Cyflwynwyd ymateb y gwahanol adrannau i'r materion anfonwyd i'w sylw yn ystod y mis diwethaf:

(a) **Peiriannydd Ardal Dwyfor fel a ganlyn:**

"Mae'r tyllau gwaethaf ar Lôn Treafes Fawr a Lôn Cellar wedi derbyn sylw. Mae'r tyllau rhwng Graig Ewig a Phwllmaen ac o Graig Ewig heibio Muriau, Bryncroes, ar hyn o bryd o fewn goddefiad risg. Mae sefyllfa cyllideb refeniw cynnal ffyrdd Ardal Dwyfor, o ran y gallu i baratoi gwaith rhaglunedig, yn eithaf tynn ar hyn o bryd. Ni ellir felly rhoi addewid pryd yr ymgymeryd a gwaith clytio rhaglunedig ac ymddiheuraf am hynny. Plis nodwch y parheir a'r gwaith ymatebol i adfer diffygion athrodus er sicrhau diogelwch defnyddwyr, yn unol a threfn ein Cynllun Cynnal Ffyrdd.

Mae'r gwaith o 'seidio' ychydig ar gwr y gerbydlon rhwng Llys Meddyg a Bryngwdyn wedi ei gynnwys ar raglen waith y gang ymatebol. Mae yna nifer o broblemau tebyg ledled rhwydwaith yr ardal yn anffodus. Mae'r sefyllfa yn anochel yn dilyn y cyfnod estynedig wlyb ers diwedd Awst 2017. Mae'r tir yn gyffredinol soeglyd."

(b) **Arwyddion i ddynodi y ffordd am yr Eglwys a'r Ffynnon ym Mryncroes**

Adroddodd y Clarc iddi anfon e-bost i'r Swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd yn gofyn beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf ynglyn a'r arwyddion ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb.

(c) Camfeydd

Adroddodd y Clarc iddi gysylltu â'r Swyddog Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd yn gofyn beth oedd y diweddaraf ynglyn ac adnewyddu'r gamfa ym Mhenygopa ac hefyd adnewyddu ac ail osod yr arwydd ger Argraig, Sarn. Yn anffodus nid oedd ymateb i law erbyn y Cyngor.

(ch) Biniau Halen

Cyflwynwyd llythyr Peiriannydd Ardal Dwyfor ynglyn a'r biniau halen presennol yng nghymuned Botwnnog – copi o'r llythyr yn ffurfio rhan o'r cofnodion.

Adroddodd y Cyngorydd Gareth Williams iddo archwilio'r biniau halen yn yr ardal a chanfod mai dau yn unig oedd angen eu llenwi sef bin rhif 22, ger Pendre, Sarn a bin 18 ger mynedfa i chwarel Nanhoron. Dywedodd nad oedd defnydd o gwbl wedi bod ar bin rhif 26, cyffordd Ty Rynn, Lon Comins, Rhiw ac awgrymodd fod y bin yma yn cael ei ail leoli ar allt Coch Moel, Sarn.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth yng nghymalau (a) – (ch) uchod gan ofyn i'r Peiriannydd Ardal Dwyfor a fyddai modd cael symud bin rhif 26 a'i ail-leoli ar allt Coch Moel. Hefyd fod y Cyngor i ail-edrych ar sefyllfa'r biniau ym mis Medi eleni.

3. Eitem 85 – Adroddiad Is-bwyllgor y Cyfrifon

Derbyniwyd llythyr gan Mr. John D. Roberts cyn Archwilydd Mewnol y Cyngor na fyddai yn ymgymryd a'r gwaith o archwilio eto. Awgrymai Mr. Roberts fod y Cyngor yn cysylltu a'r Uwch Swyddog o Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd gan eu bod wedi mynegi y gallent ymgymryd a pheth o'r gwaith. 'Roedd y Clarc eisoes wedi bod mewn cysylltiad a Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio, Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd a dyma'r atebiad:

“Diolch yn fawr am eich gwahoddiad i gynnal archwiliad ar gyfrifon a threfniadau llywodraethu Cyngor Cymdeithas Botwnnog.

Cadarnhaf y byddai Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn fodlon ymgymryd â'r ddyletswydd yma ond mae yn anodd sefydlu ffi heb wybod beth yn union yw swmp y gwaith. Fodd bynnag, gallaf roi amcangyfrif y bydd y gost yn oddeutu £125, ond noder y gall y swm ostwng neu gynyddu yn ddibynnol ar y swmp gwaith sydd i'w gyflawni, h.y. nifer trafodion, nifer mynwentydd, lefel y praesept a.y.b.

O safbwynt amserlen, byddwn yn gweithredu yn gyffelyb i'r trefniadau oedd gennych gyda Mr John Roberts.

Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS – *Public Sector Internal Audit*)

Standards) sydd yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector gyhoeddus, boed yn fewnol, gwasanaethau a rennir neu allanol.

Os ydych yn penderfynu ein penodi fel Archwiliwr Allanol, yna y cam nesaf yn y broses fydd anfon i'm sylw lythyr penodi/ymrwymiad.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych ac os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach, mae croeso i chwi gysylltu â mi.

Diolch am ddatgan diddordeb yn ein gwasanaeth."

Penderfynwyd :

- (i) Anfon gair o ddiolch at Mr. John D. Roberts am ei wasanaeth i'r Cyngor dros y blynyddoedd.
- (ii) Derbyn gwasanaeth Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd, ac anfon y llythyr o ymrwymiad drwodd i'r Swyddog.

91. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd y cais a ganlyn i sylw'r Cyngor:

Cais C18/0070/32/LL – adeiladu lolfa wydr yng Nghartrefle, Llangwnnadr.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

92. MATERION IECHYD

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen i'r Cyngor lechyd.

93. MATERION FFYRDD

Penderfynwyd gofyn i'r Peiriannydd Ardal, Cyngor Gwynedd, adfer y man pasio ger Pont Cellar, Botwnnog.

94. AWDURDOD I DALU

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

John D. Roberts, Archwiliad 2016/17 £75.00

95. AROLWG O'R TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR GWYNEDD – CYNIGION DRAFFT

Cyflwynwyd y ddogfen ddrafft ar yr uchod. Gellir darllen y ddogfen hefyd ar y wefan sef www.cffdl.llyw.cymu

Hefyd ynghlwm a'r rhaglen anfonwyd sylwadau'r Comisynydd o berthynas i Aberdaron a Botwnnog a Botwnnog a Llanengan.

Penderfynwyd fod y Clarc i baratoi ymateb i'r ddogfen a chyflwyno y cyfryw i gyfarfod nesaf o'r Cyngor.

96. **CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MON**

Cyflwynwyd ymateb i'r holiadur ymgynghoriad cyhoeddus – copi o'r ddogfen wedi ei hanfon allan gyda'r ddogfen.

Hefyd cyflwynwyd llythyr Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol drwy law Un Llais Cymru yn gofyn am i'r Cyngor neu'r aelodau yn unigol ymateb i'r holiadur.

Penderfynwyd nodi derbyn y ddwy ddogfen ac fod yr aelodau i gwblhau'r holiadur yn unigol.

97. **PARATOI'R GYLLIDEB**

Cyflwynwyd llythyr Paul Egan, Un Llais Cymru, o berthynas i dalu lwfansau i gynghorwyr. Teimlwyd fod y wybodaeth sef fod yn ..."ofynnol ar gynghorau cymuned a thref i ystyried cynnwys swm yn eu cyllideb ar gyfer cost debygol talu lwfansau i gynghorwyr" ychydig yn hwyr gan fod y Cyngor eisoes wedi paratoi eu praesept am y flwyddyn. Yn ôl Paul Egan "...nid oes modd datgan yn bendant y caiff y penderfyniadau a gynhwyswyd yn yr adroddiad blynyddol ddrafft eu cymeradwyo gan y Panel ac ni fydd hynny'n hysbys tan fis Chwefror 2018."

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

98. **RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL**

Adroddiad y Clarc fod Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn dod yn weithredol ar 25ain Mai, 2018, a dylai'r Cyngor fod yn ymwybodol o hyn.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.